# Cyngor Cymuned LLANBEDROG Community Council

## POLISI IAITH

1. **Nod strategol cyngor cymuned Llanbedrog**
   Mae gwarchod a chynyddu defnydd yr iaith Gymraeg yn nod strategol gan y Cyngor.

2. **Iaith weithredol**
   Cymraeg ydi iaith weithredol Cyngor Cymuned Llanbedrog.
   Gwarchodir rhag newid iaith weithredol Cyngor Cymuned Llanbedrog o fod yn uniaith Gymraeg, gan nodi fod y Cyngor yn hyrwyddo cymuned ddwyieithog lle gellir cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg ac ieithoedd eraill yn gyfartal.

   Petai amgylchiadau'n codi lle byddai unigolyn sydd ddim yn medru siarad Cymraeg yn mynychu pwyllgor neu'n aelod o'r Cyngor, cyfrifoldeb yr unigolyn hwnnw fydd trefnu'r modd y bydd yn cymryd rhan yng ngwaith y Cyngor. Mae Cyngor Cymuned Llanbedrog yn gyfrifol am ac yn talu am gyfieithydd yn y cyfarfodydd ac i gyfieithu dogfennau'r Cyngor o fis i fis.

3. **Cofnodion**
   Darperir cofnodion y Cyngor yn yr iaith weithredol. Mae gan aelodau o'r cyhoedd yr hawl i archwilio'r cofnodion drwy drefniant efo'r Clerc. Mae'r Cyngor yn caniatáu i'r cofnodion gael eu cyfieithu i unrhyw iaith, ond ni fydd y cyngor yn gyfrifol am unrhyw wallau neu gamddehongliadau a all ymddangos mewn cyfieithiadau o'r cofnod gwreiddiol.

4. **Adolygu**
   Bydd y Cyngor yn adolygu'r polisi pan fydd holl Gynghorau Sir a Chymuned gweddill Cymru yn gweithredu trefn ddwyieithog gytbwys.

Dyddiad adolygu a mabwysiadu : 30 Medi 2024

Clerc – Carys Jones • cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com • 07887 836807